**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

## NAFWC 2008 (Papur 2A)

**Dyddiad:** 8 Mai 2008
**Amser:** 9.00-11.00
**Lleoliad:** 4B
**Enw'r awdur a'i rif cyswllt:** Steven O'Donoghue, Est 8746

# Cynllunio Cyllideb 2009-10

***Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Wedi ei ystyried, dyfarnwyd ei fod yn addas i'w gyhoeddi yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer rheoli busnes. Ni chaniateir cyhoeddi'r papur hwn cyn pryd na datgelu cynnwys y papur gan y gallai hynny niweidio trafodaethau'r Comisiwn.***

**Diben a chrynodeb o'r materion dan sylw**

1.1 Cyflwyno Strategaeth y Gyllideb a'r cynigion sy'n ymddangos ar gyfer fformiwleiddio cyllideb 2009-10. Diben y papur cyntaf hwn yw helpu'r Comisiwn i ddechrau ystyried sut y gellir cael y cydbwysedd cywir rhwng y gofynion a roddir ar Wasanaeth Seneddol y Cynulliad o ran cefnogi'r Cynulliad, yr adnoddau a'r opsiynau sydd ar gael i ni, a'r graddau y dylid cynyddu'r gyllideb.

**Argymhelliad (gan gynnwys terfynau amser ar gyfer blaenoriaethau)**

2.1 Bod y Comisiwn yn cymeradwyo Strategaeth y Gyllideb; yn ystyried y cynigion sy'n ymddangos; ac yn tynnu sylw at unrhyw faterion o bwys neilltuol.

**Trafodaeth**

Cefndir

3.1 Bydd yn rhaid gosod cyllideb y Comisiwn am 2009-10, a'r cyllidebau dangosol ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol ganlynol, gerbron erbyn 24 Medi 2008.

3.2 Mae'r Cylch Gwella Perfformiad (*Atodiad B*) yn dangos cyd-destun proses y gyllideb flynyddol (fel y deddfwyd gan Ddeddf 2006 a'r Rheolau Sefydlog) o fewn ein taith fwy hirdymor tuag at gyflawni Nodau Strategol y Comisiwn.

Strategaeth y Gyllideb

3.3 Dyma'r amserlen arfaethedig ar gyfer paratoi'r gyllideb:

| | |
|---|---|
| *Mai 08* | Cytuno ar strategaeth y gyllideb.<br>Trafodaethau cyntaf ynghylch blaenoriaethau ac opsiynau. |
| *Mehefin 08* | Cysylltu â'r Pwyllgor Busnes ac ystyried y materion sy'n codi. |
| *Gorffennaf 08* | Cytuno ar flaenoriaethau ac ystyried yr effaith ariannol. |
| *Awst 08* | Paratoi dogfen y gyllideb ddrafft. |
| *Medi 08* | Y Comisiwn i gytuno ar y gyllideb ddrafft.<br>*24 Medi* - y gyllideb ddrafft i'w gosod gerbron. |
| *Hydref 08* | *Cyn 15 Hydref* – y Pwyllgor Cyllid i graffu ar y gyllideb ddrafft.<br>*15 Hydref* – dogfen y gyllideb derfynol, a'r cynnig iddi gael ei chytuno a'i chynnwys yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol, i'w gosod gerbron.<br>*22 Hydref* – Cynnig cyllideb y Comisiwn i'w drafod. |

3.4 Argymhellir y dull canlynol ar gyfer adeiladu'r gyllideb:

- Dechrau gyda'r gyllideb gymeradwy am 2008-09;
- Cael gwared â chostau na fydd yn digwydd eto, am brosiectau neu gynlluniau unigol yn ymwneud â 2008-09 yn unig ac unrhyw arbedion a ragwelir;
- Gwneud addasiadau llinell sylfaen i adlewyrchu swyddi newydd a chostau a fydd yn codi eto, y cytunwyd arnynt ers cymeradwyo cyllideb 2008-09 y Comisiwn;
- Gwneud addasiadau llinell sylfaen ar gyfer unrhyw gynigion cyllideb ychwanegol y gellir eu rhagweld ac sy'n debyg o gael eu cymeradwyo yn 2008-09;
- Cynnwys cynnydd chwyddiannol ar gyfer Aelodau, costau staff a nwyddau/gwasanaethau;
- Cynnwys cynigion a gymeradwywyd i gefnogi blaenoriaethau strategol y Comisiwn;
- Adolygu lefel y cronfeydd wrth gefn sydd heb eu dyrannu, ac ychwanegu atynt os bydd angen.

3.5 Mae'r dull hwn yn gwella cymaroldeb o un flwyddyn i'r llall, gan helpu i gymharu pethau tebyg, yn hytrach na chyfansymiau'r llinell isaf yn unig. Dylid cyflwyno atodiad newydd ar gyfer 2009-10, yn dadansoddi'r gyllideb gan ddefnyddio blaenoriaethau'r Comisiwn, yn ogystal â thrwy Wasanaeth/Swyddogaeth a math o gost/incwm. Bydd hwn yn ddadansoddiad braidd yn oddrychol, ond yn un pwysig yn nhermau egluro trefniant yr adnoddau.

3.6 Dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i *effeithlonrwydd.* Pan oedd y Comisiwn yn datblygu ein nodau strategol, roedd yn pwysleisio pwysigrwydd dangos gwerth am arian, adleoli adnoddau lle mae hynny'n briodol, ac ymateb i dwf organig mewn modd effeithiol. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn chwilio am effeithlonrwydd yn ein cyllideb am 2008-09 a dylem ddisgwyl rhagor o waith craffu yn hyn o beth ar gyfer 2009-10. Gosodir targedau effeithlonrwydd fel mesur perfformiad corfforaethol a thrwy'r rheiny fe geisiwn wneud arbedion trwy arferion gwaith mwy effeithlon yn ogystal ag effeithlonrwydd di-arian fel y byddwn yn darparu mwy am yr un faint o arian. Mae'n debygol y caiff mwy o gyfleoedd radical hefyd eu creu o ganlyniad i'r angen cynyddol am drefniadau cydweithredol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y rhain yn cymryd amser i'w cynllunio a'u gwireddu.

3.7 Mae egwyddorion Latimer House yn cydnabod y dylai fod gan y Senedd y rhyddid i bennu ei gyllideb, ac mae hyn yr un mor berthnasol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Gomisiwn y Cynulliad. Bydd y Comisiwn yn dymuno dangos, mewn termau cadarn, bod cynnydd mewn

gwariant yn cael ei gyfiawnhau gan newidiadau mewn galw, sy'n hanfodol i'r busnes craidd. Bydd hefyd yn dymuno bod yn ystyriol o'r amgylchedd ariannol ehangach wrth bennu graddau'r cynnydd yn ei gyllideb am 2009-10.

<u>Cynigion Dangosol</u>

3.8 Yn *Atodiad A* mae rhestr o gynigion sy'n ymddangos, a nodwyd ar gyfer eu hystyried ac sy'n gysylltiedig â chyflawni Nodau Strategol y Comisiwn. Cynhelir proses o flaenoriaethu a dadansoddi cost/lles dros yr wythnosau nesaf, ond yn y cyfamser, ***Gwahoddir Comisiynwyr i ystyried unrhyw fylchau, neu unrhyw feysydd blaenoriaeth neilltuol.***

3.9 Fel y soniwyd yn y Crynodeb, diben y papur cyntaf hwn yw helpu'r Comisiwn i ddechrau ystyried sut y gellir cael y cydbwysedd cywir rhwng y gofynion a roddir ar Wasanaeth Seneddol y Cynulliad o ran cefnogi'r Cynulliad, a'r adnoddau a'r opsiynau sydd ar gael i ni.

## <u>Materion Llywodraethu</u>

### Goblygiadau ariannol

4.1 Mae'r goblygiadau ariannol posibl sy'n codi o'r cynigion bras a nodir yn Atodiad A yn arwyddocaol. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith er mwyn mesur y costau'n fwy cywir, ac er mwyn pennu blaenoriaethau o fewn ffiniau derbyniol.

4.2 Cyllideb y Comisiwn am 2008-09 yw £46.181m. Mae'n debygol y bydd rhwng £1m-£2m o fewn y gyllideb llinell sylfaen a ddygwyd ymlaen – o ganlyniad i wariant unigol (na fydd yn digwydd eto) yn 2008-09 a rhagolygon gwariant wedi'u diweddaru – a fydd yn lleihau effaith gofynion ychwanegol ar gyfer 2009-10.

### Asesu Risg

5.1 Mae Comisiynwyr yn ymwybodol o'r risgiau posibl i enw da drwy gynnig cynnydd yn y gyllideb a all fod yn sylweddol anghyson â'r amgylchedd ariannol ehangach. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Comisiwn fod mewn sefyllfa i fodloni dyheadau'r Cynulliad a'i gyfrifoldebau cynyddol. Gellir

lliniaru'r risgiau hyn drwy gael rhaglen effeithlonrwydd gadarn, eglurder o ran meysydd blaenoriaeth a dadansoddiad cywir o gost/lles.

**Cydymffurfio**

6.1 Paratoir y papur hwn ar gyfer cydymffurfio â Deddf 2006 a'r Rheolau Sefydlog (27.7-27.9) gan eu bod yn ymwneud â chyllideb Comisiwn y Cynulliad.

**Atodiad A**

## Cynigion sy'n ymddangos ar gyfer gwell dulliau darparu 2009-10

### Amcan: byddwn yn hyrwyddo ac yn ehangu cyfranogiad pobl mewn datganoli

1. Creu profiad rhagorol i ymwelwyr yng Nglanfa'r Cynulliad. *Mae'r amseru a'r costau ar hyn o bryd yn ansicr yn nhermau cyfalaf a refeniw.*
2. Dathlu 10fed pen-blwydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. *Costau oddeutu £100k-125k am unwaith yn unig.*
3. Y Cynulliad yn y Gymuned – opsiynau i ailstrwythuro'r ganolfan ymwelwyr yng Ngogledd Cymru a chreu gwasanaeth mwy symudol a hyblyg, sy'n gwneud y defnydd gorau o dechnoleg newydd a democratiaeth ddigidol. *Ehangu ar yr opsiynau a'r costau.*
4. Datblygu'r defnydd o lwyfannau digidol i werthu'r stori e-ddemocratiaeth. *Ehangu ar yr opsiynau a'r costau.*
5. Creu cyfleuster gwefan estyn allan/addysg newydd, gyda phorth at newyddion y gymdeithas ddinesig hefyd. *Costau oddeutu £25k am unwaith yn unig.*
6. Creu Siop y Cynulliad ar lein – a fydd yn hyrwyddo nwyddau'r Cynulliad ar draws Cymru. *Ehangu ar yr opsiynau a'r costau.*
7. Yn dilyn gwaith ymchwil llinell sylfaen a wnaed yn ystod 2008, datblygu grwpiau ffocws yn ôl pob tebyg. *Costau oddeutu £15k y flwyddyn.*

### Amcan: byddwn yn dangos undod, arweinyddiaeth ac ymateb yn hyderus i newid cyfansoddiadol

1. Mae darparu gwasanaethau ardderchog a chyflawni strategaeth y Comisiwn yn dibynnu ar gael y lefel gywir o fedr mewn lle. Mae'r meysydd gwasanaeth canlynol wedi dangos angen posibl i gynyddu adnoddau staff yn ystod 2009-10, neu'r flwyddyn ganlynol:

   - Gwasanaethau Cyfreithiol – ystyried cynnydd pellach mewn cyfreithwyr (dau ar Raddfa 7), yn gysylltiedig â'r llwyth gwaith cynyddol. *Costau oddeutu £120k y flwyddyn.*

- Cyfathrebu Allanol – ystyried yr adnoddau ar waith estyn allan a gwaith gwefan. *Ehangu ar yr opsiynau a'r costau.*

2. Disgwylir i'r gost o gefnogi Deddfwriaeth Cymru Ar-lein gynyddu'n sylweddol o dan fformat cyflenwi newydd. *Costau oddeutu £100k y flwyddyn.*
3. Bydd datblygu sgiliau arweinyddiaeth ar draws y sefydliad yn helpu i wthio perfformiad ymhellach wrth fynd ar drywydd amcanion y Comisiwn. Lansiwyd y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth yn 2008, a bydd gofyn am fwy o arian yn y blynyddoedd sydd i ddod. *Costau oddeutu £30k y flwyddyn*.

## Amcan: yn ein holl waith, byddwn yn dangos parch, uniondeb a sgiliau llywodraethu da

1. Cynhelir adolygiad manwl o'r cymorth ariannol i Aelodau yn ystod 2008-09, gydag effaith bosibl ar gyllidebau am y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd sydd i ddod.
2. Mae costau sy'n gysylltiedig â'r Etholiadau nesaf yn 2011-12 yn disgyn i'r haen gyllidebu hon, gan ychwanegu *£800,000 amcangyfrifedig* at gyllidebau dangosol y flwyddyn honno.
3. Byddai'r system Adnoddau Dynol, Snowdrop, a'r system Gyllid, CODA, yn elwa o arian ar gyfer datblygu parhaus, er mwyn sicrhau bod y systemau yn parhau i fodloni anghenion rheolwyr gwasanaethau fel y maent yn datblygu. *Costau oddeutu £100k y flwyddyn.*

## Amcan: byddwn yn gweithio'n gynaliadwy

1. Mae'r Senedd eisoes yn cael ei glodfori fel twr o gynaliadwyedd, ond mae llawer mwy i'w wneud ar draws ein hystâd yn y Bae i leihau'r defnydd o ynni, i leihau gwastraff ac i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd mewn meysydd eraill, fel teithio a chaffael. Argymhellir llinell wariant newydd i ariannu gwelliannau o'r fath, ynghyd â threfniadau ar gyfer gwrthbwyso carbon. *Ehangu ar yr opsiynau a'r costau.*

**2.** Mae'r Comisiwn wedi rhoi cyllideb o £300,000 y flwyddyn yn ei lle ar gyfer adnewyddu'r adeiladau, gan gynnwys arferion cynaliadwy fel synwyryddion golau. Dylid ystyried a yw'r lefel hon o ariannu yn caniatáu i'r rhaglen adnewyddu gael ei chwblhau o fewn amserlen dderbyniol, gan fod yn arbennig o wyliadwrus o'r trefniadau i ddathlu'r 10$^{fed}$ pen-blwydd. *Ehangu ar yr opsiynau a'r costau.*

## Amcan: byddwn yn sicrhau bod y Cynulliad yn darparu'r gwasanaeth gorau, a hynny yn y ffordd fwyaf effeithlon

1. Mae holl Aelodau'r Cynulliad a gwasanaethau Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn dibynnu'n drwm ar TGCh. Er mwyn bod ar flaen y gad o ran gweithio modern gyda systemau sy'n bodloni ein hanghenion, mae'n hanfodol buddsoddi'n drwm a pharhaus mewn TGCh. Yn ystod 2008/09 rydym yn lansio rhaglen i-newid, a fydd, yn y bôn, yn adolygu ein cyfeiriad teithio ar gyfer e-ddemocratiaeth a gweithio digidol. Bydd goblygiadau ariannol i hyn yn sicr, a bydd graddfa'r rhain yn rhan o'r penderfyniadau lles cost a wneir gan y Comisiwn. Argymhellir rhaglen gylchdroöl o amnewid caledwedd hefyd, ynghyd â phrosiectau TGCh penodol eraill ar gyfer:

- Adolygu'r trefniadau contract cyfredol a newidiadau tebygol iddynt;
- Diweddaru'r Dechnoleg yn y Senedd;
- gwelliannau darlledu;
- cebl cylch newydd;
- adnewyddu'r rhyngrwyd a rheoli'r cynnwys yn well;
- system gyfieithu unol â'r Senedd;
- system rheoli Pwyllgorau/Busnes y Cynulliad;
- system trin deddfwriaeth;
- System Rheoli Gwybodaeth Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau;
- mynediad at System Gwybodaeth Ddaearyddol;
- cronfa ddata i olrhain is-ddeddfwriaeth.

*Costau oddeutu £1m-£2m y flwyddyn.*

2. Bydd angen cynnwys costau rhedeg y feithrinfa newydd, pan gaiff ei chwblhau, yn y gyllideb am 2009/10 a’r blynyddoedd sydd i ddod.
3. Mae’r Uned Gorfforaethol yn ymchwilio i werth System Rheoli Cofnodion a Data Electronig (ERDMS) ynghyd â threfniadau archifo. *Ehangu ar yr opsiynau a’r costau.*